**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

**Cyfarfod Aml-leoliad – Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas/MS Teams**

**Dydd Gwener, 9 Rhagfyr 2022 am 10.00am**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| J P Curtice | P Downing | V A Holland |
| S Joy | P Lloyd | H M Morris |
| C L Philpott | B J Rowlands | L V Walton |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Lynda Anthony | Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch |
| Craig Davies | Cyfreithiwr Cyswllt |
| Kath Thomas | Swyddog Trwyddedu |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd: M W Locke

---

## 28 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 29 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cytuno bod Cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol Arbennig a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2022 a'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2022 yn gofnod cywir.

## 30 Gwahardd y Cyhoedd

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 31 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Cais am ganiatáu Trwydded i Yrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat - JLC

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch, gyda chymorth y Swyddog Trwyddedu yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â JLC.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd JLC yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r cais ac atebodd gwestiynau aelodau.

**Penderfynwyd:**

1) Gohirio'r mater hyd nes y ceir gwybodaeth bellach.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.52 am

**Cadeirydd**